# CDU arlein

## System ar-lein digidol i gynnal Cynlluniau Datblygu Unigol

Cynlluniau Addysg Personol

Cynlluniau Meddygol

Fersiwn 15/09/2021



# Canllawiau CDU arlein

Mewngofnodi i'r System ..... 3
Prif Dudalen - Y Dashfwrdd ..... 4
Dewisiadau ar frig y tudalen ..... 4
Hysbysiadau - cadw golwg ar newidiadau ..... 5
Tudalen Disgyblion ..... 6
Chwilio am Ddisgybl ..... 7
Dewsiadau Hidlo ..... 7
Tudalen Proffil, CDU a CAP ..... 8
Cwympo neu Ehangu'r Panel Chwith ..... 9
Uwchlwytho Llun y Disgybl ..... 9
Dewis Enw Pob Dydd ..... 9
Newid Dyddiad Adolygu ..... 9
Botymau ar y Panel Chwith ..... 9
Enghraifft o Flwch Testun a Fformatio ..... 10
Tudalen Manylion Personol CDU a CAP ..... 11
Gwybodaeth Proffil / CDU / Cynllun Meddygol ..... 12
Statws CDU a Cham Gweinyddol cyfredol y CDU ..... 12
Statws CDU a Chynlluniau Meddygol ..... 12
Camau Gweinyddol ..... 13
Cyflwyno Cais / Adolygiad i'r Awdurdod ..... 13
Panel Chwith – Dewislen Gwybodaeth CDU ..... 14
Gwybodaeth CAP ..... 15
Statws CAP a Cham Gweinyddol cyfredol y CAP ..... 15
Cam Gweinyddol CAP ..... 15
Panel Chwith – Dewislen Gwybodaeth CAP ..... 16
Gwahoddiadau ..... 17
Gwahodd Cyfranwyr ..... 17
Rhwystro Mynediad ..... 19
Mynediad i ddefnyddwyr lleoliadau eraill ..... 20
Amserlen ..... 21
Adolygu Gwahoddiadau ..... 22
Creu a Rheoli Cyfrifon ..... 23
Diogelu Data a GDPR ..... 24
Clwstwr o ddau neu fwy o leoliadau ..... 25
Argraffu ..... 26

# Mewngofnodi i'r System

https://cduarlein.cymru




Bydd angen derbyn manylion defnyddiwr a chyfrinair gan yr awdurdod neu'r lleoliad addysgol er mwyn mewngofnodi i'r system.

# Prif Dudalen - Y Dashfwrdd

Dewis dashfwrdd CDU (Cynlluniau Datblygu Unigol a Chynlluniau Meddygol) neu dashfwrdd CAP (Cynlluniau Addysg Personol)










## Dewisiadau ar frig y tudalen




| | |
|---|---|
| CDU | Dolen i dudalen Dashfwrdd |
| DASHFWRDD | Dolen i dudalen Dashfwrdd |
| DISGYBLION | Dolen i dudalen Disgyblion |
| ADRODDIADAU | Dolen i dudalen Adroddiadau |
| ENGLISH | Newid iaith i Saesneg |
| GWEINYDDOL | Dolen i dudalen Defnyddwyr |
| ENW DEFNYDDIWR | Rheoli'r cyfrif / Newid cyfrinair |
| | Hysbysiadau o'r system |
| | Gadael y system |

# Hysbysiadau - cadw golwg ar newidiadau

Ar ben y dashfwrdd mae cloch las, gyda nifer yr hysbysiadau heb eu darllen gyda chefndir lliw coch.




Drwy ddewis y gloch wen o'r dewisiadau ar frig y system, neu drwy glicio ar y gloch las o'r dashfwrdd bydd tudalen Hysbysiadau yn ymddangos:




I hidlo'r hysbysiadau gweladwy mae'n bosib dewis y mathau o hysbysiad drwy dicio neu dad-dicio y mathau, cynnig cyfnod o ddyddiadau, a/neu chwilio am enwau.

Bydd yr hysbysiadau wedi hidlo yn ymddangos fel rhestr mewn tabl ar y dudalen

# Tudalen Disgyblion

**Er gwybodaeth:** Data ffug yw'r wybodaeth ar gyfer y disgyblion isod.




| CDU | Enw llawn | Bl | DG | Lleoliadau | Adolygiad nesaf | Statws | Cam gweinyddol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | ADAM Jackson | 12 | 03/03/03 | Addysg ddewisol gartref (Gwynedd) | 26/05/21 | CDU Ysgol | Dim cam | CDU |
| 3 | ANITA Thomas | 11 | 14/09/03 | Addysg ddewisol gartref (Gwynedd) | | Proffil un tudalen | | CDU |
| 5 | ARTHUR Douthwaite | 7 | 23/04/08 | Addysg ddewisol gartref (Gwynedd) | 19/05/22 | CDU Ysgol | Dim cam | CDU |
| 6 | BOBBY Cockerton | 3 | 04/03/12 | Addysg ddewisol gartref (Gwynedd) | 25/05/22 | CDU Ysgol | Dim cam | CDU CAP |
| 8 | CARLOS Price | 2 | 05/03/13 | Addysg ddewisol gartref (Gwynedd) | 19/05/22 | CDU Ysgol | Dim cam | CDU CAP |
| 1 | ERIC Sousa | 12 | 06/09/02 | Addysg ddewisol gartref (Gwynedd) | 05/05/22 | CDU Ysgol | Dim cam | CDU CAP |

Disgyblion gyda Phroffil neu CDU sy'n ymddangos yn ddiofyn. Dewis CAP i weld disgyblion Plant Mewn Gofal, dewis Pob Disgybl i weld holl ddisgyblion y lleoliad, Archif i weld y rhai sydd wedi ymadael, Lleoliadau eraill i weld disgyblion lleoliadau eraill sydd ar agor i leoliad y defnyddiwr.




Mae dewis Dangos mwy o ddata yn ychwanegu rhagor o golofnau data

# Chwilio am Ddisgybl

Chwilio am ddisgybl drwy fewnbynnu enw yn y blwch chwilio.




# Dewsiadau Hidlo

Mae 5 hidlydd ar gael gyda dewisiadau hidlo




## Botymau eraill at tudalen Disgyblion



Creu Proffil Un Tudalen i'r disgybl, y cam cyntaf er mwyn creu un ai CDU neu CAP


Gweld manylion am y disgybl



Gweld CDU cyfredol y disgybl



Creu CAP y disgybl (unwaith mae'r cam Creu Proffil wedi cwblhau)



Gweld CAP y disgybl

# Tudalen Proffil, CDU a CAP

Dewis gweld cynlluniau CDU (Proffil, CDU neu Chynlluniau Meddygol) neu CAP os ydyn ar gael






# Cwympo neu Ehangu'r Panel Chwith

Cwympo neu ehangu panel y chwith fel bod is-banel y dde yn llydanach



# Uwchlwytho Llun y Disgybl

Clic tu fewn i'r cylch i uwch lwytho llun newydd neu newid llun y disgybl

# Dewis Enw Pob Dydd

Clic ar yr enw cyntaf i newid i un o ddewis (sef enw a hoffai'r disgybl cael ei adnabod o ddydd i ddydd).
Mae'r enw llawn yn y cromfachau yn cyrraedd y System CDU o SIMS yr ysgol.

# Newid Dyddiad Adolygu

Dyddiad diofyn fydd blwyddyn ar ôl dyddiad creu'r CDU. Clic ar ben y dyddiad yma i newid.

# Botymau ar y Panel Chwith



Gweld / Argraffu Proffil Un Tudalen neu CDU y disgybl



Gweld fersiynau blaenorol o'r CDU / CAP wedi eu cyhoeddi



Ymestyn gwahoddiad i gyfrannu tuag at y CDU / CAP




Creu/cadw copi o'r CDU / CAP ar gyfer cofnodion neu gofynion statudol




Cofnodi gwybodaeth gweinyddol / statudol am y CDU /CAP

# Enghraifft o Flwch Testun a Fformatio




Pan mae eiconau CAP CDU yn ymddangos uwchben blwch cofnodi gwybodaeth mae hyn yn golygu y bydd y wybodaeth sy'n cael ei gofnodi yn weladwy yn y CDU a'r CAP. Os dim ond un eicon sy'n weladwy mae hyn yn golygu y bydd y wybodaeth sy'n cael ei gofnodi yn weladwy yn un ai'r CDU neu'r CAP yn unol â'r eicon sy'n ymddangos.

Newid fformat y testun




Arbed testun newydd




Gweld fersiynau blaenorol o'r testun yn yr is-banel






Addaswyd diwethaf gan




## Tudalen Manylion Personol CDU a CAP

Mae tudalen Manylion Personol yn dangos y wybodaeth sydd wedi trosglwyddo i'r system CDU Ar-lein o'r Lleoliadau Addysgol neu'r Awdurdod.

Wrth weithio ar y CDU mi fydd y dewisiadau dilynol yn ymddangos:




Wrth weithio ar y CAP mi fydd y dewisiadau dilynol yn ymddangos:




| | |
|---|---|
| Lleoliadau : | Hanes lleoliadau addysgol sydd wedi trosglwyddo i'r system. |
| Rhieni / Gwarchodwyr: | Lle i gasglu manylion pobl sy'n ymwneud a'r CDU neu CAP (e.e. rhieni, rhieni maeth, gwarchodwyr, gweithwyr cymdeithasol ac yn y blaen. |
| CDU : | Gwybodaeth fywgraffiadol / ychwanegol sydd angen i gynnal y CDU (Proffil, CDU neu Chynlluniau Meddygol) |
| CAP : | Gwybodaeth fywgraffiadol / ychwanegol sydd angen i gynnal y CAP |

# Gwybodaeth Proffil / CDU / Cynllun Meddygol

Panel uchaf ar y chwith yn dangos manylion y disgybl a statws y CDU:

## Statws CDU a Cham Gweinyddol cyfredol y CDU




## Statws CDU a Chynlluniau Meddygol

Botymau newid statws y CDU.  Botwm du yn dangos y statws presennol




Dewisiadau Statws i Gydlynwyr / Staff Ysgol

- Proffil un tudalen
- Proffil Meddygol Unigol
- CDU Ysgol
- Ymholiad ADY Ysgol

Statws eraill ar gael i'r Awdurdod

- CDU Awdurdod
- CDU Fforwm
- Cynllun Meddygol Unigol
- Ymholiad ADY Awdurdod
- Ymholiad ADY Awdurdod (Blynyddoedd Cynnar)
- Dim Statws

## Camau Gweinyddol

Dewisiadau ar gyfer Cydlynwyr / Staff Ysgol




| | |
|---|---|
| Cais Fforwm : | Cais i'r Fforwm ADY&Ch |
| Cais Panel – Newydd : | Cais newydd i'r Panel Cymedroli |
| Cais Panel – Newydd (Blynyddoedd Cynnar) : | Cais newydd i'r Panel Cymedroli |
| Cais Panel – Adolygiad : | Cais am adolygiad i'r Panel Cymedroli |
| Addasiadau Rhesymol : | Cais i'r Panel Addasiadau Rhesymol |

Statwsau eraill ar gael i'r Awdurdod

Tribiwnlys – Cyfnod Apêl
Tribiwnlys – Cyfnod Gorchymyn
Dim statws

## Cyflwyno Cais / Adolygiad i'r Awdurdod

Unwaith mae CDU disgybl yn barod yw cyflwyno i'r Awdurdod yna un ai newid statws i **Cais Fforwm, Cais Panel - Adolygiad** neu **Cais Panel - Newydd** fel sy'n briodol.

# Panel Chwith – Dewislen Gwybodaeth CDU

Unwaith mae statws yn newid i CDU neu Cynllun Meddygol bydd y rhan isaf o'r panel chwith yn dangos dewis o baneli gwybodaeth fel yr isod:

**CDU**

- Proffil
- Manylion personol
- Meysydd angen
- Cyrhaeddiad
- Gweithio / ddim yn gweithio i GWYNEDD?
- Gweithio / ddim yn gweithio i'r ysgol?
- Gweithio / ddim yn gweithio i'r teulu?
- Gweithio / ddim yn gweithio i eraill?
- Dyheadau
- Pwy sy'n bwysig i GWYNEDD?
- Darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)
- Cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig
- Gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU
- Amserlen o ddigwyddiadau allweddol
- Trosglwyddo
- Crynodeb Darpariaeth Bresennol
- Cofnod cytundeb
- Cyfarfodydd
- Cludiant
- Addasiadau Rhesymol
- Meddygol
- Penderfyniadau
- Lle mewn ysgol/sefydliad a enwir neu bwyd/llety

**Cynllun Meddygol**

- Proffil
- Manylion personol
- Meysydd angen
- Gweithio / ddim yn gweithio i Alys?
- Gweithio / ddim yn gweithio i'r teulu?
- Gweithio / ddim yn gweithio i eraill?
- Pwy sy'n bwysig i Alys?
- Cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig
- Trosglwyddo
- Cofnod cytundeb
- Cyfarfodydd
- Cludiant
- Addasiadau Rhesymol
- Meddygol

# Gwybodaeth CAP

Panel uchaf ar y chwith yn dangos manylion y disgybl a statws y CAP:

## Statws CAP a Cham Gweinyddol cyfredol y CAP




## Statws CAP

Botymau newid statws y CAP.  Botwm du yn dangos y statws presennol




Dewis o 1 statws i Gydlynwyr / Staff Ysgol

- CAP Statws CAP cyflawn

Statws eraill ar gael i’r Awdurdod

- Dim Statws : CAP wedi terfynu

## Cam Gweinyddol CAP



Dewis o 1 statws i Gydlynwyr / Staff Ysgol

- Gwirio - Awdurdod : Cais i gydlynydd PMG yr Awdurdod i wirio'r CAP

Statws eraill ar gael i'r Awdurdod

- Gwirio – Ysgol : Cais i berson dynodedig PMG yr Ysgol i wirio'r CAP

## Panel Chwith – Dewislen Gwybodaeth CAP

Unwaith mae CAP yn cael ei gychwyn bydd y rhan isaf o'r panel chwith yn dangos dewis o dudalennau gwybodaeth CAP:

**Proffil**

- Manylion personol
- Gwybodaeth Lleoliad Addysgol
- Cyrhaeddiad
- Gweithio / ddim yn gweithio i ERIC?
- Gweithio / ddim yn gweithio i'r ysgol?
- Dyheadau
- Pwy sy'n bwysig i ERIC?
- Y ffordd ymlaen i ERIC
- Proffil Cyrhaeddiad / Trywydd
- Cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig
- Trosglwyddo
- Meddygol
- Cyswllt mewn Argyfwng

# Gwahoddiadau

Mae’n bosib cynnig a rhwystro mynediad i P1D/CDU/CAP ar y dudalen Gwahoddiadau drwy bwyso ar y fotwm priodol ar y panel chwith.

Mae hefyd yn bosib rhoi mynediad i ddefnyddwyr lleoliadau eraill (ysgol arall e.e.) fel grŵp hytrach nag fel unigolion. Mae hyn yn ddefnyddiol lle mae cydlynydd ysgol gynradd angen rhoi mynediad i gydlynydd a staff ysgol uwchradd er enghraifft.

## Gwahodd Cyfranwyr




Creu gwahoddiad drwy ddewis botwm Creu gwahoddiad newydd a llenwi’r wybodaeth sydd angen:




Dewis lefel gwahoddiad o Hawliau CDU ac Hawliau CAP fel bo angen. Mae tudalennau ac is-baneli’r ar agor i dderbyn cyfraniadau yn ddibynnol ar lefel y gwahoddiad

Lefelau gwahoddiad:

- Ysgol
- Rhiant
- Eraill (e.e. cyfranwyr proffesiynol)
- Disgybl
- Darllen yn Unig
- Cloi allan

Bydd gwahoddiadau ar agor yn ymddangos yn is-banel Gwahoddiadau ar agor, e.e.

Gwahoddiadau ar agor

| E-bost | Disgrifiad / Sylwadau | Wedi ei gyrru | Math | Côd | |
|---|---|---|---|---|---|
| gwyncdu@gmail.com | Swyddog newydd | 17/08/20 12:24:51 | Eraill | 👁 | Diweddaru \| Canslo \| Ail-yrru |

Bydd y person sydd wedi'i wahodd yn derbyn e-bost gyda linc a chyfarwyddiadau i gysylltu â'r lleoliad i dderbyn cod mynediad

Bydd pwyso ar yr eicon 👁 yn dangos y cod mynediad:

Mae'n bosib newid a Diweddaru lefel, Canslo neu Ail-yrru gwahoddiad:

Diweddaru | Canslo | Ail-yrru

Bydd gwahoddiadau sydd wedi'u derbyn yn ymddangos yn is-banel Gwahoddiadau wedi'u derbyn:

Gwahoddiadau wedi'i dderbyn

| E-bost | Enw | Disgrifiad / Sylwadau | Math |
|---|---|---|---|

## Rhwystro Mynediad

Mae’r panel Gwahodd yn cynnwys is-banel ar gyfer rhwystro mynediad




Mae’n bosib dad-rwystro drwy ddewis Dileu. Bydd y cynlluniau ar agor i’r defnyddiwr unwaith eto cyn belled bod y gwahoddiad dal wedi’i dderbyn.

# Mynediad i ddefnyddwyr lleoliadau eraill

Mae’r panel Gwahodd yn cynnwys is-banel ar gyfer rhoi mynediad i leoliadau (ysgolion e.e.) eraill ar y system.




Mae’n bosib creu mynediad i P1D/CDU drwy ddewis y botwm Ychwanegu lleoliad ac yna dewis y lleoliad o’r gwymprestr a darfod drwy ddewis Ychwanegu. Mi fydd y lleoliad yn ymddangos yn y tabl fel yr uchod.




Mi fydd pob aelod o staff sydd gyda chyfrifon llawn (sef ddim gwahoddiad) yn y lleoliad newydd yn gweld y disgyblion y maent wedi derbyn mynediad iddynt drwy ddewis yr opsiwn Lleoliadau eraill ar eu tudalen Disgyblion.




Ni fydd angen danfon cod mynediad gan mai defnyddwyr lleoliadau sydd eisoes wedi eu hadnabod ar y system bydd yn gweld y P1D/CDU.

# Amserlen

Mae’n bosib cofnodi gwybodaeth weinyddol a statudol ar y dudalen Amserlen drwy bwyso ar y botwm ar y panel chwith.




Bydd dewis un o'r amserlenni o'r gwymprestr a phwyso Ychwanegu yn caniatáu cofnodi gwybodaeth ar gyfer yr amserlen.  Mae'n bosib agor mwy nag un amserlen ar y tro.




Mae amserlenni sydd wedi cau yn ymddangos ar y ddalen Hanesyddol.

# Adolygu Gwahoddiadau

Fel rhan o gynllunio ar gyfer adolygu P1D/CDU ac anfon gwahoddiadau i'r cyfarfod adolygu rhaid i’r lleoliad addysgol adolygu gwahoddiadau'r unigolion, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sydd eisoes gyda gwahoddiad ar agor er mwyn sicrhau eu bod yn parhau’n berthnasol i’r plentyn/person ifanc, a bod y manylion cyswllt yn gywir.

Rhaid i’r lleoliad addysgol:

- ychwanegu unrhyw wahoddiadau newydd perthnasol
- dileu unrhyw wahoddiadau sydd ddim yn wneud â’r plentyn/person ifanc rhagor

***Nodyn***. Os yw defnyddiwr sydd angen ei ddileu wedi derbyn nifer o wahoddiadau ac nid yw’n hawdd cael hyd i bob P1D/CDU mae’r defnyddiwr wedi derbyn gwahoddiad ar eu cyfer yna cysylltwch â’r awdurdod i gynorthwyo.

Cysylltwch â Gwyn Jones. E-bost: gwynjones2@gwynedd.llyw.cymru neu tîm weinyddol ADY&CH ar gweinyddolADYaCH@gwynedd.llyw.cymru

# Creu a Rheoli Cyfrifon

Mae defnyddwyr ar lefel Gweinyddwr yn gyfrifol am greu cyfrifon newydd ar gyfer lleoliad, a hefyd eu dileu pan fydd angen.

Mae tudalen Defnyddwyr yn ymddangos drwy ddewis GWEINYDDOL ar frig y dudalen. Bydd holl gyfrifon presennol y lleoliad yn ymddangos.




Dewis Creu cyfrif newydd i fynd i'r tudalen cofrestru defnyddwyr newydd drwy gofnodi'r wybodaeth ddilynol:



Bydd y cyfrif newydd yn ymddangos yn rhestr defnyddwyr y lleoliad:

| Grŵp | Enw defnyddiwr | Enw llawn | Lleoliad addysgol | |
|---|---|---|---|---|
| Gweinyddwr Isranbarth | gwynjones2@gwynedd.llyw.cymru | Gwyn Jones | Awdurdod Môn | Diweddaru \| Dileu |

Mae'n bosib newid cyfrinair drwy ddewis Diweddaru. A dileu cyfrif o'r system drwy ddewis Dileu

# Diogelu Data a GDPR

Mae rhaid i leoliadau addysgol bod a rheolaethau ar waith i sicrhau cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd y data y maent yn ei Brosesu er mwyn iddynt gydymffurfio â'u polisi Diogelu Data a'u rheoliadau GDPR. Dylid cadw ac adolygu lefel y mynediad a roddir ar gyfer pob defnyddiwr fel rhan o gofnodion 'cychwynnwr / newid rôl / ymadawr' gan ganiatáu i fynediad gael ei ddiweddaru'n gywir pan fo angen.

# Clwstwr o ddau neu fwy o leoliadau

A ydych chi'n bennaeth neu'n gydlynydd ADY ar fwy nag un ysgol? Mae'n bellach yn bosib creu clwstwr o ddau neu fwy o ysgolion - gydag un cyfrif i fewngofnodi i'r system CDU ar-lein i weld disgyblion y clwstwr cyfan.

Staff Awdurdod bydd yn gyfrifol am greu clystyrau. I osod cyfrif clwstwr cysylltwch â Gwyn Jones. E-bost: gwynjones2@gwynedd.llyw.cymru neu tîm weinyddol ADY&CH ar gweinyddolADYaCH@gwynedd.llyw.cymru

# Argraffu

Mae'n bosib argraffu adroddiadau unigol yng nghlwm a gwybodaeth disgybl drwy ddewis y botwm argraffu ar y panel chwith a dewis un o'r adroddiadau sy'n ymddangos 




Unwaith i'r adroddiad llwytho ar y sgrin mae'n bosib dewis fformat:




A dewis argraffu neu lawr lwytho'r adroddiad 

**Nodyn**. Nid yw dewis lawr lwytho'r adroddiad yn creu dogfen PDF bydd pob tro yn agor yn llwyddiannus mewn pecyn fel Adobe Reader (mae gwaith ymchwil i ddatrys y broblem yn bwrw ymlaen).

Mae creu ddogfen PDF drwy argraffu a dewis 'Microsoft Print to PDF' neu debyg fel argraffydd yn creu dogfen PDF cywir ar bob achlysur.

